## Grymuso Ceredigion drwy Gyngor Ynni yn y Gymuned

Rydym yn rhan o Asiantaeth Ynni Severn Wye, cwmni nid-er-mwyn-elw ac elusen gofrestredig sy'n gweithredu ledled Cymru a'r Mers gan helpu cymunedau, preswylwyr a busnesau i greu dyfodol cynaliadwy, fforddiadwy a charbon-isel.

Mae grymuso Ceredigion drwy Gyngor Ynni yn y Gymuned yn cefnogi pobol sy'n cael trafferth gwresogi a phweru eu cartrefi yn ddigonol ac yn fforddiadwy.

## Yr  hyn yr ydym yn ei wneud

Deliwn â materion ynni cartrefi, gan gynghori ynghylch camau arbed ynni ymarferol a chyraeddadwy yn y cartref, tynnu sylw at gamau ôl-osod neu helpu'r rhai mewn argyfyngau tanwydd.

Rydym yn gwirio ac yn esbonio datganiadau ynni ac yn cynghori ynghylch dulliau rheoli dyled neu leihau biliau ynni mawrion.

Eiriolwn â chyflenwyr ynni ar ran cleient.

Amcanwn alluogi cleientiaid i reoli eu sefyllfa ynni domestig eu hunain yn y dyfodol.

## Pwy sy'n gymwys?

Unrhyw un sy'n byw yng Ngheredigion sydd â thrafferthion â'u cyflenwadau neu'u biliau ynni domestig.

## Sut y gallwn fod o gymorth

Cynigwn achlysuron gwybodaeth dros dro, sgyrsiau â grwpiau bychain, ymgynghoriadau teleffon, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy sesiynau galw heibio anffurfiol neu apwyntiadau a drefnwyd. Rydym yn cynnig ymweliadau â chartrefi, hefyd, lle rhoddwn gyngor ynni domestig penodol ar gyfer y safle.

Os oes ar gleient angen eich cymorth â'i gyflenwr ynni, gallwn eiriol ar ei ran, gan amcanu eu galluogi i reoli eu materion ynni eu hunain yn hyderus yn y pen draw.

Rydym yn cyfeirio cleientiaid at sefydliadau eraill, hefyd, os yw eu hanghenion yn ymestyn y tu hwnt i ynni, a chanlynwn gyfeiriadau gan bartneriaid sy'n rhanddeiliaid. Dyma lle gobeithiwn y bydd gennych chi ran allweddol.

## Cyd-destun ein gwaith

Erys tlodi tanwydd yn her feunyddiol i lawer yn y DU, a dengys yr ystadegau diweddaraf fod y broblem ar gynnydd. Mae Severn Wye yn gweithio tuag anghenion dynol sylfaenol cynhesrwydd, iechyd da a chartref diogel nawr, a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac ynni carbon isel ar gyfer y dyfodol.

Ein nod yw creu cysylltiadau newydd yng nghymunedau Ceredigion gyda'r bwriad o ddarparu cyngor cyfrinachol am ddim ar faterion ynni domestig, yn ogystal ag agor llwybrau newydd ar gyfer atgyfeirio at gymorth pellach i fwy o bobl.

Mae grymuso Ceredigion drwy gymorth Cyngor Ynni yn y Gymuned yn cael ei ariannu tan fis Mai 2026 ac fe'i darperir i gleientiaid yn rhad ac am ddim.

## Tlodi tanwydd – beth yw ef?

Yn ôl y diffiniad swyddogol tlodi tanwydd yng Nghymru yw bod angen i aelwyd wario rhagor na 10% o’u henillion er mwyn cadw’n ddigon cynnes gydol yr amser.

Diffinnir unrhyw aelwyd sy’n gorfod gwario rhagor nag 20% yn un mewn tlodi tanwydd difrifol.

Yn nodweddiadol, mae tlodi tanwydd yn effeithio ar bobl dlawd, y rhai sy’n byw mewn tai hŷn, a phobl â symudedd cyfyngedig a/neu anghenion meddygol penodol. Ond wrth i bobl ymgodymu â’r argyfwng costau byw, mae tlodi tanwydd yn dechrau effeithio ar ystod llawer ehangach o gymdeithas.

Yng Nghymru, mae stoc dai wael yn cyfrannu hefyd, gan fod yr anheddau hŷn hyn yn llai tebygol o fod yn ynni-effeithlon. Cofnododd arolwg Cyflwr Tai Cymru yn 2017–18 fod rhagor na hanner yr holl gartrefi a adeiladwyd cyn 1980 mewn tlodi tanwydd, o gymharu â dim ond 6% o’r rhai a adeiladwyd yn ddiweddarach.

## Tueddiadau a rhagolygon

Disgwylir i aeaf 2024 achosi rhagor o gyni tlodi tanwydd. Bydd pobl yn talu o leiaf ddwywaith yr hyn yr oeddent cyn 2021, a bydd y codiadau prisiau diweddaraf (rhagwelir cynnydd o 10% ar Hydref y 1af 2024 a chynnydd ychwanegol, amhenodol ar Ionawr y 1af 2025) yn parhau i beri problemau i lawer. Mae taliadau sefydlog yn aros yn uchel, hefyd, ac yn gost benodedig hyd yn oed ar gyfer y rhai sy’n llwyddo i ddefnyddio llai o ynni.

Yn ychwanegol, mae effaith genedlaethol diflaniad y Taliad Tanwydd Gaeaf yn achos tua 10 miliwn o bensiynwyr, a’r ffaith nad yw rhagor na miliwn o bensiynwyr sy’n gymwys ar gyfer y TTG yn hawlio credydau pensiwn hyd yn hyn.

## Tlodi tanwydd ac iechyd

Mae tlodi tanwydd yn debycach o effeithio ar sawl sy’n dlawd a/neu â thai ynni-aneffeithlon, neu ag anghenion ynni mwy, oherwydd cyflyrau meddygol neu wendidau eraill, efallai.

Mae’r rhai sydd fwyaf ym mherygl yn cynnwys, yr hen, teuluoedd â phlant ifainc, pobl ag anableddau, pobl ar fudd-dal, pobl mewn tai cymdeithasol/awdurdod lleol neu’n byw mewn eiddo rhent preifat, pobl mewn llety tros dro a phobl â chyflyrau iechyd cronig, tymor hir.

Gall effeithiau cartref oer ar iechyd for yn bellgyrhaeddol ac yn hirymarhous. Mae pobl â chyflyrau'r galon a chylchrediad, ac anawsterau anadlu, neu broblemau iechyd meddwl, plant ifainc, yr hen, ac unrhyw un â chyflwr meddygol cronig, tymor hir ym mherygl neilltuol.

Mae gan blant bach tan bump oed sy'n byw mewn amgylchiadau oer 30% yn fwy o berygl datblygu arwyddion y fogfa. Maent yn debycach o weld effeithiau negyddol ar eu datblygiad addysgol hefyd: mae cyrhaeddiad addysgol yn rhagfynegydd allweddol iechyd tymor hir a hyd oes.

## Cydweithio - Gallwch ein helpu trwy:

- wneud lle i ni yn eich mangre, trefnu rhai apwyntiadau â defnyddwyr presennol eich gwasanaethau, a'n galw ni draw i'w gweld nhw
- cyfeirio cleientiaid atom gan ddefnyddio ein ffurflen gyfeirio (https://webforms.dizions.co.uk/severn_wye_energy_agency/2)

## Cysylltwch â ni

E-bostiwch y tîm eiriolaeth ar communityadvice@severnwye.org.uk neu cysylltwch â ni'n uniongyrchol:


Amanda Harries

Uwch Gynghorydd Ynni Cymunedol, Ceredigion

amandah@severnwye.org.uk

Symudol: 07778 359857




Gobeithiwn fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol a bod Grymuso Ceredigion drwy Gyngor Ynni yn y Gymuned yn dod yn adnodd ychwanegol y gallwch ei ddefnyddio i helpu'r bobl rydych yn gweithio gyda nhw. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.

Edrychwn ymlaen at weithio â chi.